IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

**PRIFFYRDD**

**NOSC 202- Rhif**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR AR FYNYDD CILFÁI A CHYFLEUSTER PARCIO A THEITHIO GLANDŴR, ABERTAWE SA1 2LE) 202-**

*Gwnaed* ****** 202-*

*Yn dod i rym* ****** 202-*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**),

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir ar Fynydd Cilfái a Chyfleuster Parcio a Theithio Glandŵr, Abertawe SA1 2LE) 202- a daw i rym ar ******* 202-.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council* ") yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir ar Fynydd Cilfái a Chyfleuster Parcio a Theithio Glandŵr, Abertawe SA1 2LE) 202-" o dan y cyfeirnod qA2403976 sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn;

(**1**) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

**HIGHWAYS**

**NWSI 202- No.**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT KILVEY HILL AND LANDORE PARK AND RIDE FACILITY, SWANSEA SA1 2LE) ORDER 202-**

*Made* ******* 202-*

*Coming into force* ******* 202-*

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(**1**), make this Order.

**Title and Commencement**

**1.** The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Land at Kilvey Hill and Landore Park and Ride Facility, Swansea SA1 2LE) Order 202- and it comes into force on ****** 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"the Council" ("*y Cyngor*") means City and County of Swansea Council;

"the deposited plan" ("*y plan a adneuwyd*") means the plan entitled "the Stopping Up of Highways (Land at Kilvey Hill and Landore Park and Ride Facility, Swansea SA1 2LE) Order 202-" with reference qA2403976 which accompanies this Order;

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted;

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

(**1**) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Cau Priffordd**

**3.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 4 i 7 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2025 o dan y cyfeirnod 2023/1748/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**Priffordd Newydd**

**4.** Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(1)**, i fod yn briffordd i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdani.

**Priffordd y Gwneir Gwelliannau Iddi**

**5.** Rhaid gwneud gwelliannau, er boddhad rhesymol y Cyngor, i'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, sy'n briffordd i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdani.

**Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd**

**6.** Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn—

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygwr wedi gwella'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(d) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn

(**1**) 1980 p. 66.

**Stopping Up**

**3.** Subject to articles 4 to 7 of this Order, the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 21 February 2025 with reference 2023/1748/FUL and described in Schedule 4 to this Order.

**New Highway**

**4.** There will be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new length of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple on the deposited plan, which is to be highway maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980(**1**) and the Council is to be the highway authority responsible for it.

**Improved Highway**

**5.** There must be improvements made, to the reasonable satisfaction of the Council, to the length of highway described in Schedule 3 to this Order and shown by crossing hatching on the deposited plan, which is highway maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980 and the Council is to be the highway authority responsible for it.

**Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up**

**6.** The length of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until—

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;

(b) the developer has provided the new length of highway described in Schedule 2 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(c) the developer has improved the length of highway described in Schedule 3 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(d) the development described in Schedule 4 to this Order has commenced and the

(**1**) 1980 c. 66.

angenrheidiol cau'r darn o briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(e) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b), (c) a (d) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr Statudol**

**7.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn dyddiad cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, bydd gan yr ymgymerwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig *********2026

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and

(e) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b), (c) and (d) are satisfied.

**Statutory Undertakers**

**7.** Where immediately before the date on which the length of highway described in Schedule 1 to this Order is stopped up, there is apparatus under, in, on, over, along or across the highway belonging to statutory undertakers, the undertakers shall continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated *********2026

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar dir ar Fynydd Cilfái a Chyfleuster Parcio a Theithio Glandŵr, Abertawe SA1 2LE, o bwynt 3 metr i'r gogledd-orllewin o linell cwrb ogleddol Ffordd Fynediad safle Parcio a Theithio Glandŵr hyd at bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-orllewin o linell cwrb ogleddol Ffordd Fynediad safle Parcio a Theithio Glandŵr, ac o bwynt 21 metr i'r gorllewin o linell cwrb estynedig ogledd-orllewinol Ffordd Gyswllt Cross Valley yr A4067 hyd at bwynt 54 o fetrau i'r gorllewin o linell cwrb estynedig ogledd-orllewinol Ffordd Gyswllt Cross Valley yr A4067. Cyfanswm ei arwynebedd yw 572 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**Y briffordd newydd sydd i'w darparu**

Darn o briffordd trapesiwm ei siâp a leolir yn gyfagos i'r gerbytffordd sengl bresennol tua'r gogledd i gael

**SCHEDULE 1**
**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway on the land at Kilvey Hill and Landore Park and Ride Facility, Swansea SA1 2LE, from a point 3 metres north west of the northern kerb line of Landore Park and Ride Access Road to a point 28 metres north west of the northern kerb line of Landore Park and Ride Access Road, and from a point 21 metres west of an extended north western kerb line of the A4067 Cross Valley Link to a point 54 metres west of an extended north western kerb line of the A4067 Cross Valley Link, with a total area of 572 square metres and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**New highway to be provided**

A trapezium-shaped length of highway located adjacent to the existing northbound single-carriageway highway to access Landore Park and Ride site, Swansea SA1 2LE, measuring 29 metres at

mynediad i safle Parcio a Theithio Glandŵr, Abertawe SA1 2LE, sy'n mesur 29 o fetrau ar ei ochr letaf a 35 o fetrau ar ei ochr hiraf, ac sydd wedi ei farcio â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**
**Y darn o briffordd sydd i'w wella**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o fewn y safle o'r enw safle Parcio a Theithio Glandŵr SA1 2LE, sy'n cynnwys cerbytffordd 7.0 metr o led, sy'n cynnwys Llwybr Cyd-ddefnyddio 3.0 metr o led, rhan o gilfan man llwytho 3.0 metr o led a man troi safonol y gellir eu mabwysiadu ar gyfer bysiau, ac sydd wedi ei farcio â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**
**Y Datblygiad**

Datblygiad hamdden newydd sy'n cynnwys gorsafoedd gondola gyda gondolâu a seilwaith cysylltiedig, adeilad amlbwrpas i ymwelwyr gan gynnwys cyfleusterau gwerthu bwyd a diod gyda seddi allanol a lleiniau caled cysylltiedig, ynghyd â thraciau ceir llusg, lifft cadair, siglen awyr, llwybrau beicio mynydd, llwybrau mynediad, llinell sip a seilwaith ategol, adeiladau ategol ar gyfer staff a gwaith cynnal a chadw, gwaith proffilio'r ddaear, tirlunio, mynedfa adeiladwyr a lle caeedig dros dro, gwaith draenio, cyfarpar, gwaith priffyrdd, parcio, dymchwel terfynell parcio a theithio a gwaith cysylltiedig.

its widest side and 35 metres at its longest side and marked with stipple on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**
**Length of highway to be improved**

An irregular shaped length of highway within the site known as Landore Park and Ride site, Swansea SA1 2LE, comprising of a 7.0 metre wide carriageway, incorporating a 3.0 metre wide Shared Use Path, portion of 3.0 metre wide loading bay lay-by and adoptable standard turning area for buses, and marked with cross hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 4**
**The Development**

New leisure development comprising gondola stations with gondola and associated infrastructure, multi-purpose visitor building including the sale of food and drink with associated outside seating and hardstanding, together with luge tracks, chairlift, skyswing, mountain bike trails, access routes, zipline and supporting infrastructure, ancillary buildings for staff and maintenance, ground profiling works, landscaping, temporary construction access and compound, drainage works, plant, highway works, parking, demolition of park and ride terminal and associated works.